



Cynhadledd Cynnydd mewn Rheolaeth ac Arloesedd (AMI) 2024

Dyddiad: 21^{ain} a 22^{ain} o Fai 2024

Lleoliad: Ystafell Lletygarwch, Ysgol Reoli Caerdydd,
Campws Llandaf, Prifysgol Metropolitan Caerdydd



Mae **Martin Astley** yn un o bartneriaid sefydlu BikePark Wales ac mae wedi bod yn chwarae rhan allweddol wrth ddylunio, datblygu a gweithredu'r atyniad twristiaeth allweddol hwn. Mae cefndir Martin ym maes rheoli a marchnata brand ac mae'r ffaith ei fod yn rasiwr beiciau mynydd brwd a medrus wedi helpu i ddarparu'r cynnyrch y mae'r farchnad yn ei ddymuno ac i adrodd y straeon y mae beicwyr am eu clywed. Mae Martin wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o greu ffordd newydd ac unigryw o weithio mewn partneriaeth â

Chyfoeth Naturiol Cymru (rheolwr tir BikePark Wales) sydd wedi creu model busnes hollol newydd ar gyfer CNC a BikePark Wales sydd o fudd i bobl ac i'r blaned



Mae **Julieanna Powell-Turner** yn Athro Cynaliadwyedd Amgylcheddol gydag arbenigedd mewn gwarchod yr amgylchedd a chadwyni cyflenwi cynaliadwy. Mae hi wedi dysgu ac ymchwilio i gynaliadwyedd amgylcheddol ers dros 20 mlynedd ac wedi gweithio gyda phartneriaid diwydiannol ac academaidd yn fyd-eang gan gynnwys yr ADB, UNEP, DFID, Deutsche Gesellschaft für Internationale Zusammenarbeit (GIZ), UE, NDA, a llywodraeth y DU (MOD, GCHQ, a DEFRA). Mae ganddi brofiad helaeth o weithio'n rhyngwladol yn y maes amgylcheddol tra ym Mhrifysgol

Cranfield lle cyfrannodd ei gwaith at greu amgylchedd galluogi ar gyfer twf cynaliadwy yn ogystal â chynghori llywodraethau a llunwyr polisi ar Reoli Adnoddau Naturiol. Yn 2019, ymunodd â Phrifysgol Caer fel Deon Cyswllt ar gyfer Ymchwil, Arloesi a Chyfnewid Gwybodaeth lle mae'n arwain yr agenda ymchwil ar gyfer y Gyfadran Gwyddoniaeth, Busnes a Menter. Fel rhan o'i gwaith ei hun, mae'n datblygu'r gofod Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amgylcheddol lle mae'n addysgu ac yn goruchwylio gwaith ar lefel MSc a PhD, yn ogystal â chydweithio â diwydiant i ddylunio, datblygu a dod â chynhyrchion a gwasanaethau amgylcheddol newydd i'r farchnad. Mae ei hymchwil presennol yn ymwneud ag ymestyn yr economi gylchol, a diogelu'r amgylchedd drwy gydol oes. Nod y dull gydol oes hwn yw cymhwyso rhagwelediad i fygythiadau amgylcheddol yn y dyfodol a allai leihau'r tebygolrwydd a/neu effaith amhariadau drwy nodi risg (amhariadau), asesu (digwyddiad ac effaith), gweithredu (strategaeth a lliniaru) a monitro (lleihau risg).